

CYPE(6)-06-21 - Papur i'w nodi 7

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care
Committee**

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

11 Tachwedd 2021


Annwyl Jayne

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

Diolch am anfon copi ataf fi o'ch llythyr dyddiedig 9 Tachwedd 2021 at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Ysgrifennaf atoch i rannu gwybodaeth â chi am gais y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am dystiolaeth ysgrifenedig, ac i gadarnhau fy mod wedi gofyn i fy Nhlerc sicrhau bod ymateb Llywodraeth Cymru i lythyr y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac unrhyw sesiwn friffio breifat a baratowyd ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lywio ein sesiwn tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidogion, yn cael eu rhannu gyda chi a'ch Aelodau maes o law.

Fel y cytunwyd pan wnaethom gyfarfod yn gynharach y mis hwn, mae meysydd arwyddocaol a phwysig sy'n gorgyffwrdd o fewn cylchoedd gorchwyl ein pwyllgorau o ran iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol plant a phobl ifanc. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio mewn modd adeiladol a chadarnhaol ar y materion hyn gyda chi a'ch Pwyllgor yn ystod y Chweched Senedd.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Iechyd a
Gofal Cymdeithasol**

**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan AS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau

Cymdeithasol

Lynne Neagle AS

Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddIechyd@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddIechyd

0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddHealth@senedd.wales

senedd.wales/SeneddHealth

0300 200 6565

08 Tachwedd 2021

Annwyl Weinidogion


Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

Yn unol â'n harfer, rwyf yn ysgrifennu cyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu.

Rydym yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ddydd Llun 20 Rhagfyr 2021, a byddwn yn eich gwahodd i sesiwn dystiolaeth lafar ddechrau'r flwyddyn newydd. Bydd y clerc yn cysylltu â'ch swyddfeydd i drafod dyddiadau.

Er mwyn hwyluso ein gwaith craffu, byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r materion a amlinellir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall yr hoffech ei darparu, erbyn 20 Rhagfyr 2021.

Yn gywir,



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad: cais am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am y dyraniadau i Linellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL).

1. Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 2022-23 yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, camau gweithredu a Llinell Wariant yn y Gyllideb.
2. Dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol dangosol 2022-23.
3. Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys dadansoddiad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2022-23, ac esboniad arnynt, a Chyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 (Mehefin 2021).
4. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r dadansoddiad nodi pa newidiadau, os o gwbl, sy'n ymwneud ag adnoddau ychwanegol a ddarparwyd yn benodol ar gyfer ymateb i COVID yn 2021-22 (cyllid canlyniadol a gwarantedig gan Lywodraeth y DU).

Gwybodaeth arall

Yn ogystal â'r pedair thema arferol, sef gwerth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, a syniad o sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'i phum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y materion a ganlyn (os nad yw'r wybodaeth honno eisoes wedi'i chynnwys yn y sylwebaeth ar bob cam gweithredu).

Perfformiad ariannol byrddau iechyd lleol

5. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ariannol cyffredinol byrddau iechyd. Dylai hyn gynnwys:
 - a. Y rhai sydd wedi parhau i fethu â chyflawni eu dyletswyddau ariannol.
 - b. Y rhai sydd wedi cael cymorth ariannol ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn a chymorth ariannol yn ystod y flwyddyn.
 - c. Manylion am sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ac yn gweithio gyda'r byrddau iechyd hynny i fynd i'r afael â heriau tymor byr, gwella eu sefyllfa sylfaenol, a sicrhau gwelliant parhaus.

6. Nodwch lefel y cronfeydd iechyd wrth gefn a ddyrennir o fewn y Gyllideb Ddrafft, a sut yr ydych yn rhagweld y bydd y cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio.
7. Amlinellwch eich disgwyliadau o ran sut y dylai byrddau iechyd geisio lleihau eu costau sefydlog, a pha ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i gynorthwyo â hyn.

Effaith COVID-19 ar ddyraniadau

8. Esboniwch sut mae'r pandemig wedi dylanwadu ar ddyraniadau i linellau cyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a rhowch enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o ganlyniad i COVID-19. Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylech roi sylw i'r materion a ganlyn:
 - a. Y tybiaethau sy'n sail i ddyraniadau a wnaed o ganlyniad i'r pandemig.
 - b. Dyraniadau sydd wedi'u gwneud i gefnogi capasiti ychwanegol ar gyfer gwasanaethau neu adnoddau staff ychwanegol wrth i'r ymateb i'r pandemig barhau, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, gwasanaethau cymunedol ac ysbytai, gofal cymdeithasol, iechyd y cyhoedd, a'r rhaglen frechu.
 - c. Dyraniadau ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.
 - d. Dyraniadau a wnaed i sicrhau bod cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei gynnal.

Mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros

9. Rhowch fanylion am sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cefnogi'r gwaith o ddarparu mwy o ofal rheolaidd, ac yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros. Dylai hyn gynnwys sut y bydd unrhyw gyllid canlyniadol a gwarantedig gan Lywodraeth y DU yn cael ei ddefnyddio.

Y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol

10. Esboniwch sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at ddarparu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, gan leihau a rheoli gwariant ar staff asiantaeth.

Gofal sylfaenol

11. Rhowch fanylion am y gyllideb a ddyrennir ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a buddsoddiad yn yr ystâd gofal sylfaenol, a sut y mae hyn yn cymharu â'r symiau a ddyrannwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf. Wrth ateb y cwestiwn hwn, dylech sôn i ba

raddau y bydd y dyraniadau hyn yn cyflawni'r nod polisi o symud gofal o ysbytai i ofal sylfaenol neu leoliadau cymunedol.

Gofal cymdeithasol

12. Amlinellwch y dyraniad arfaethedig ar gyfer gofal cymdeithasol, gan gynnwys:
 - a. Unrhyw gyllid ychwanegol a nodwyd ar gyfer 2022-23, a sut y caiff y cyllid hwn ei dargedu.
 - b. Sut y bydd y dyraniadau'n sicrhau hyfywedd a sefydlogrwydd parhaus gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal preswyl a gofal cartref.
 - c. Pa gymorth y bydd y Gyllideb Ddrafft yn ei ddarparu i ofalwyr di-dâl, gan gynnwys tystiolaeth o wariant penodol ar ofal seibiant.
 - d. Mesurau yn y Gyllideb Ddrafft a fydd yn gwella cynaliadwyedd y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyfrannu at sicrhau eu bod yn cael yr un parch, yr un cyflogau a'r un telerau ac amodau â'r gweithlu gofal iechyd.
 - e. Effaith ddisgwyliedig ardoll iechyd a gofal cymdeithasol y DU, yn enwedig unrhyw gyllid ychwanegol neu ganlyniadol.
13. Cadarnhewch a yw'r dyraniad ar gyfer gofal cymdeithasol yn ddigonol i fodloni asesiadau gwariant safonol pob awdurdod lleol ar gyfer 2022-23, ac amlinellwch sut y byddwch yn monitro gwariant awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn.

Iechyd meddwl a llesiant

14. Esboniwch sut mae eich blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles yn cael eu hadlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft, a lle gellir dod o hyd i'r gwariant a ddyrannwyd/y gwariant rhagamcanol ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu manylion am y dyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft sy'n ymwneud â:
 - a. Gwasanaethau iechyd meddwl (gan gynnwys y Gronfa Gwella Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn hwyluso ymyrraeth gynharach a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl).
 - b. Iechyd a llesiant meddyliol plant a phobl ifanc.
 - c. Dementia.

- d. Awtistiaeth.
 - e. Gordewdra/gweithredu 'Pwysau Iach, Cymru Iach'.
15. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu manylion am y materion a ganlyn:
- a. Canran/cyfran y Gyllideb Ddrafft a ddyrennir i iechyd meddwl a llesiant, a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.
 - b. Unrhyw ostyngiad neu gynnydd o ran meysydd penodol o'r Gyllideb Ddrafft o gymharu â'r blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. lleihau neu gynyddu grantiau, cyflwyno grantiau newydd neu eu dileu'n gyfan gwbl);

Trawsnewid, arloesi ac integreiddio â gofal cymdeithasol

16. Amlinellwch sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu 'dull system gyfan', gyda mwy o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, fel y disgrifir yng nghynllun Cymru Iachach. Yn benodol, esboniwch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cydbwysu'r angen i fynd i'r afael â'r pwysau presennol ar wasanaethau a'r angen i drawsnewid gwasanaethau a datblygu modelau gofal newydd.
17. Sut y bydd y gwaith o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau yn cael ei gefnogi yn y tymor hwy i gyflawni cynnydd parhaus o ran trawsnewid, sicrhau ffocws ar gyflwyno a phrif ffrydio'r hyn a ddysgwyd o gynlluniau peilot llwyddiannus, ac osgoi dibynnu ar gyllid ychwanegol parhaus.

Gwaith atal ar draws y Llywodraeth/sector

18. Mae gan Gymru lefelau uchel o glefydau cronig ac mae pryder sylweddol am ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach. Mae'r pandemig wedi tynnu sylw at hyn ac wedi gwaethygu'r sefyllfa. Dangoswch sut mae'r Gyllideb Ddrafft yn cyflawni'r nodau a ganlyn:
- a. Sicrhau nad yw'r ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar yn cael ei golli o ganlyniad i'r pandemig.
 - b. Adlewyrchu dull cydgysylltiedig 'system gyfan' o wella iechyd a llesiant pobl, a thargedu'r prif feysydd sy'n peri pryder.

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

19. Amlinellwch sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys y rhai sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig, neu'r rhai sy'n deillio o effaith anghymesur y pandemig neu gyfyngiadau symud ar iechyd neu les grwpiau

penodol (fel oedolion hŷn, cymunedau BAME, neu bobl ar incwm isel neu sydd fel arall yn ansicr yn ariannol). Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu manylion am sut y bydd y Gyllideb Ddrafft yn sicrhau bod y rhai mwyaf difreintiedig yn cael blaenoriaeth, a bod mynediad teg at wasanaethau iechyd a gofal mewn ardaloedd gwledig.

TGCh

20. Asesiad o gostau cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau digidol a data, fel y disgrifir yng nghynllun Cymru Iachach, gan gynnwys mwy o gymorth ar gyfer gofal digidol a rhithwir.

Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

21. Gwybodaeth am unrhyw ddyraniadau cyllideb yn eich portffolio o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

